Diwygiad Awst 2019

PRIFYSGOL BANGOR
ASESIAD EFFAITH CYDRADDOLDEB

Dylid cynnwys asesiad effaith cydraddoldeb fel rhan hanfodol o'r broses o ddatblygu polisiau newydd, adolygu polisiau a gwneud penderfyniadau strategol a gweithrediadol[1] er mwyn sicrhau y dileeir unrhyw anghydraddoldeb a gwahaniaethu neu y rhoddir sylw iddynt cyn gynted â phosib.

Mae'r rhestr wirio hon yn rhan o ddull y brifysgol o ymdrin ag asesu effaith cydraddoldeb a dylid ei defnyddio i asesu effaith y polisi ar grwpiau sydd â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

---

**GRWPIAU CYDRADDOLDEB:**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Oedran | Anabledd | Ailddynodi gender | Beichiogrwydd a mamolaeth | Yr iaith Gymraeg |
| Hil | Crefydd a chred | Rhyw | Cyfeiriadedd rhywiol | Math o gontract |
| Priodas a phartneriaeth sifil | | | | |

Sylwer - Mae'n ymarfer da ystyried materion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a math o gontract er bod y meysydd hynny dan ddeddfwriaeth wahanol i Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

**Enw neu deitl y polisi: -**

Cod Ymarfer 09: Y Polisi a'r Cod Ymarfer ar Recriwtio a Derbyniadau Myfyrwyr (Polisi Derbyniadau)

[1] Er y defnyddir y gair POLISI yn y templed hwn, dylid ei newid i STRATEGAETH/PENDERFYNIAD GWEITHREDIADOL fel bo'n briodol

| Gwybodaeth am y Polisi: | |
|---|---|
| Beth yw pwrpas y Polisi? | Nod Prifysgol Bangor yw rhoi profiad cadarnhaol i bawb sy'n gwneud ymholiadau ynglŷn ag astudio yn y brifysgol a/neu'n gwneud cais am le ar gwrs yn y brifysgol. Pwrpas y cod ymarfer hwn felly, yw nodi safbwynt y brifysgol ynglŷn â materion allweddol sy'n ymwneud â recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr yn y brifysgol. Mae hefyd yn disgrifio'r egwyddorion a'r prosesau a ddefnyddir gan y brifysgol wrth recriwtio, dethol a derbyn myfyrwyr newydd. O'r herwydd, y ddogfen hon yw'r polisi cyffredinol ar recriwtio, dethol a derbyn ym Mhrifysgol Bangor. |
| Pwy sy’n gyfrifol am y polisi? | Pennaeth Derbyniadau |
| Beth yw cysyll.272f1 0 0 1 102.26 363.23 Tm0 g0 | |

| | |
|---|---|
| | rhywiol. Felly dylid darllen y cod ymarfer hwn ar y cyd â pholisi cydraddoldeb y brifysgol (https://www.bangor.ac.uk/humanresources/equalitydiversity/EqualityPolicyStatement.php.en). |
| A ellid defnyddio’r polisi i hyrwyddo perthynas dda rhwng pobl? | Mae'r cod ymarfer yn dilyn canllawiau arfer da'r SPA a'i nod yw gwella gwasanaethau a phrofiad ymholwyr/ymgeiswyr. Caiff derbyniadau eu hadolygu'n gyson ac yn eu cyd-destun ac mae'r cod ymarfer yn anelu at sicrhau bod grwpiau gwarchodedig a/neu grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol yn cael ystyriaeth ddyledus a/neu gefnogaeth/ arweiniad ychwanegol lle bo hynny'n briodol, e.e. myfyrwyr hŷn, ymadawyr gofal, ffoaduriaid, myfyrwyr ag anghenion cymorth ychwanegol, ymgeiswyr o gefndir dan anfantais (ardaloedd cod post POLAR), etc. |

| Monitro | |
|---|---|
| Pa ddata meintiol neu ansoddol sydd ar gael yn gefn i'r polisi? | Gellir dod o hyd i ddata meintiol yn seiliedig ar ystadegau dienw am ymgeiswyr sydd ar gadw gan Brifysgol Bangor a/neu UCAS i lywio trafodaethau/penderfyniadau os oes angen. Cefnogir y cod ymarfer gan drefn gwynion i ymholwyr/ymgeiswyr i dderbyn a rheoli unrhyw faterion ansoddol. Caiff unrhyw gwynion a'u hymdriniaeth eu hadolygu a chaiff canfyddiadau/argymhellion eu bwydo i'r grwpiau tasg perthnasol i'w gweithredu os oes angen. |

| Ymgynghori | |
|---|---|
| Pa grwpiau yr ymgynghorwyd â hwy wrth ddrafftio'r polisi? | Mae'r Grŵp |